**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1293
Ein cyf/Our ref EM/03792/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr pellach dyddiedig 25 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-06-1293 Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i wasanaethau cyswllt torri esgyrn (FLS).

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r rhaglen archwiliadau clinigol cenedlaethol sy'n cynnwys y gronfa ddata ar gyfer gwasanaethau cyswllt torri esgyrn. Mae'r gronfa ddata'n darparu amrywiaeth o ystadegau a naratif sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hyn, ac mae'n rhoi cymorth hanfodol wrth inni benderfynu ar ein dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau cyswllt torri esgyrn yn cael eu datblygu ar draws Cymru.

Ar ddechrau 2022, gofynnodd swyddogion i'r byrddau iechyd roi trosolwg o'r gwasanaethau cyswllt torri esgyrn y maent yn eu darparu yn eu hardaloedd. Roedd y data hyn yn dangos bod y ddarpariaeth yn amrywio'n sylweddol, gan amlygu'r angen i ddatblygu gwasanaethau mewn nifer o ardaloedd. Fe arweiniodd y data hyn, a hefyd yr ymgyrchu cryf gan y trydydd sector a chleifion, at gynnal y Gynhadledd gyntaf ar Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn ar 20 Hydref 2022. Yn y gynhadledd honno, daeth dros 150 o glinigwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt ynghyd i hyrwyddo iechyd esgyrn ac i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rheolaeth eilaidd ar gyfer toriadau esgyrn brau. Hefyd lansiodd y gynhadledd Grŵp Sicrwydd a Datblygu FLS Cymru Gyfan.

Cafodd y grŵp hwn ei greu i roi cyngor a chymorth i fyrddau iechyd o ran sut y gallant ddatblygu gwasanaethau sy'n sicrhau'r budd gorau o safbwynt ariannol ac o safbwynt darparu gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth. Bydd y grŵp, o dan gadeiryddiaeth Dr Inder Singh, yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Cwympiadau ac Eiddilwch, yn cydweithio

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyda chlinigwyr i lunio achosion busnes i'w cyflwyno i'r byrddau iechyd, gan helpu i fodelu costau yn ôl yr angen.

Cynhaliodd y grŵp ei gyfarfod cyntaf ddiwedd mis Hydref, ac ar y dechrau bydd yn canolbwyntio ar annog y byrddau iechyd i gymryd rhan yn archwiliadau'r gronfa ddata ar gyfer gwasanaethau cyswllt torri esgyrn er mwyn darparu llinell sylfaen gywir i'r grŵp sicrwydd a'r darparwyr archwiliadau ei defnyddio.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi cyllid ychwanegol gan ein bod yn disgwyl i'r byrddau iechyd berchen ar eu gwasanaethau gan ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael iddynt eisoes. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy, ac mae rhagolygon gan y Gymdeithas Osteoporosis Frenhinol yn dangos y byddent yn arbed arian drwy wneud hynny.

Yn olaf, rwy'n parhau'n ymrwymedig i ddatblygu gwasanaethau cyswllt torri esgyrn i Gymru gyfan, a byddaf wrth gwrs yn herio'r byrddau iechyd i ystyried eu gwasanaethau gofal ataliol eilaidd o fewn eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services